Gwasanaeth Anabledd a Gofalwyr
Uned Lwfans Gofalwr

Dylech nodi

Mae Tudalen 14 o'r daflen Lwfans Gofalwr yn cynnwys gwybodaeth am pryd ddylech chi wneud cais am Lwfans Gofalwr. Mae'r rheolau wedi newid ers i ni argraffu'r wybodaeth hyn. Dylech ddarllen y wybodaeth canlynol am pryd i wneud cais.

Pryd i wneud cais

Gwnewch gais nawr – os ydych yn gofalu am rywun sydd yn cael neu sydd wedi derbyn dyfarniad diweddar o

- Lwfans Gweini;
- Lwfans Gweini Cyson ar neu'n uwch nag y gyfradd uchaf arferol fel ychwanegiad at Fudd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol, neu ar neu'n uwch nag y gyfradd sylfaenol (diwrnod llawn) fel ychwanegiad at Bensiwn Anabledd Rhyfel; neu
- Lwfans Byw i'r Anabl ar y gyfradd ganol neu uchaf o'r elfen ofal.

Peidiwch ag oedi neu gallech golli budd-dal.

Gwnewch gais yn ddiweddarach – os ydych yn gofalu am rywun sydd heb eto wneud cais am un o'r budd-daliadau y sonnir amdanynt uchod, neu maent wedi gwneud cais ond yn aros am benderfyniad.

Dylai'r person rydych yn gofalu amdanynt ystyried gwneud cais am un o'r budd-daliadau canlynol yn syth os nad ydynt wedi gwneud cais amdanynt yn barod. Os yw un o'r budd-daliadau hyn yn cael ei ddyfarnu iddynt dylech wneud cais am Lwfans Gofalwr yn syth (o fewn tri mis o'r penderfyniad am Lwfans Gweini, Lwfans Gweini Cyson neu Lwfans Byw i'r Anabl os yn bosibl). Peidiwch ag oedi neu gallech golli budd-dal.

Oherwydd y gall dyfarniad Lwfans Gofalwr olygu bod gennych yr hawl i gael Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, Cymhorthdal Incwm, Credyd Pensiwn, Budd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor, efallai yr hoffech wneud cais am y budd-daliadau neu'r hawliadau hyn ar yr un pryd â'ch cais am Lwfans Gofalwr.

Cofiwch, mae'n bwysig i wneud cais am Lwfans Gofalwr cyn gynted â phosibl – o fewn tri mis o'r penderfyniad am DLA/AA/CAA os yn bosibl – neu fe allech golli allan ar fudd-dal.

Lwfans Gofalwr

DWP Adran Gwaith a Phensiynau

Gwasanaeth Anabledd a Gofalwyr

Ydych chi'n ofalwr?

Ydych chi'n gofalu am rywun sydd â salwch neu anabledd difrifol sy'n gwneud eu bywyd bob dydd yn anodd? Efallai bod gan y person hwn salwch neu anabledd corfforol neu feddyliol. Gallai fod yn ifanc neu'n hen, yn gyfaill, perthynas neu'n gymydog. Nid oes rhaid eich bod yn byw gyda'r person rydych yn gofalu amdano na bod gennych drefniant gofalu ffurfiol.

Os yw hyn yn berthnasol i chi, gallech fod yn gymwys i gael Lwfans Gofalwr.

Beth yw Lwfans Gofalwr?

Budd-dal yw Lwfans Gofalwr i ofalwyr pobl sy'n ddifrifol anabl. Efallai bydd rhaid i chi dalu treth arno.

Ydw i'n gymwys?

Mae'n rhaid bod y person rydych yn gofalu amdano yn cael un o'r budd-daliadau canlynol:

- Lwfans Gweini (AA)
- Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) – cyfradd ganol neu uchaf elfen ofal
- Lwfans Gweini Cyson (CCA) ar:
  - uchafswm y gyfradd arferol fel rhan o Fudd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol, neu
  - y gyfradd sylfaenol (diwrnod llawn) fel rhan o Bensiwn Anabledd Rhyfel.

  neu'n uwch.

I gael rhagor o wybodaeth am y budd-daliadau hyn, cysylltwch â'ch swyddfa Canolfan Byd Gwaith leol, neu yn www.canolfanbydgwaith.gov.uk.

Hyd yn oed os yw'r person rydych yn gofalu amdano yn aros i gael clywed am unrhyw un o'r budd-daliadau hyn, dylech wneud cais am Lwfans Gofalwr o hyd. I gael rhagor o wybodaeth, gweler yr adran 'Beth ddylwn i ei wneud nesaf?' isod.

Os telir un o'r budd-daliadau uchod i'r person rydych yn gofalu amdano, efallai y byddwch yn gymwys i gael Lwfans Gofalwr os:

- ydych yn 16 oed neu'n hŷn
- ydych yn gofalu am y person hwnnw am o leiaf 35 awr yr wythnos
- nad ydych yn dilyn cwrs llawn amser mewn addysg bellach (mae llawn amser yn golygu 21 awr neu fwy o astudiaeth dan oruchwyliaeth bob wythnos)
- ydych yn bresennol ym Mhrydain Fawr (ac wedi bod am o leiaf 26 wythnos o'r 52 wythnos diwethaf) ac nad ydych o dan reolaeth mewnfudo, ac
- nad ydych yn ennill mwy na swm penodol – gweler yr adran 'Beth os ydw i'n gweithio?'

Nid yw Lwfans Gofalwr yn gysylltiedig ag incwm, felly ni chewch eich holi am eich cynilion.

Beth arall sydd angen i mi ei wybod am wneud cais am Lwfans Gofalwr?

A ddyfernir Lwfans Gofalwr ar gyfradd unigol?

Mae cyfradd wythnosol safonol o Lwfans Gofalwr. Gellir hwn cael ei leihau gan swm o fudd-daliadau eraill rydych yn eu derbyn (fel Pensiwn y Wladwriaeth), neu efallai y gallwch gael arian ychwanegol ar gyfer eich gŵr, gwraig, partner sifil neu oedolyn arall sy'n byw gyda chi ac yn gofalu am eich plant.

A fyddaf yn cael Lwfans Gofalwr os ydw i'n cael budd-dal neu lwfans arall?

Efallai na fyddwch yn cael Lwfans Gofalwr os ydych yn cael un o'r budd-daliadau a restrir isod.

- Pensiwn y Wladwriaeth
- Budd-dal Analluogrwydd
- Lwfans Anabledd Difrifol
- Lwfans hyfforddi
- Atodiad i'r 'anghyflogadwy' a delir gyda Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol neu Fudd-dal Anabledd Rhyfel
- Pensiwn Gwraig Weddw neu Lwfans Profedigaeth
- Lwfans Mam Weddw neu Lwfans Rhiant Gweddw
- Budd-dal Marwolaeth Diwydiannol

- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar gyfraniadau
- Lwfans Mamolaeth
- Lwfans Hyfforddi Ieuenctid
- Hyfforddiant Cyflogaeth
- Adsefydliad Cyflogaeth

Rwy'n ofalwr o oedran gweithio

Os ydych o oedran gweithio a'ch bod yn gymwys i gael Lwfans Gofalwr (p'un a yw'n cael ei dalu ai peidio), gallwch gael swm ychwanegol (premiwm gofalwr) wedi'i gynnwys pan fyddwn yn gweithio allan eich:

- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
- Cymhorthdal Incwm
- Budd-dal Tai, neu
- Fudd-dal Treth Cyngor.

I gael rhagor o wybodaeth am Fudd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor, cysylltwch â'ch cyngor lleol.

Rwy'n ofalwr sydd dros 60 oed

Os ydych yn cael budd-daliadau eraill (er enghraifft Pensiwn y Wladwriaeth), efallai na fyddwch yn cael Lwfans Gofalwr, neu efallai y gallwch ei gael ar swm is.

Fodd bynnag, os byddwch yn bodloni'r amodau cymhwyso i gael Lwfans Gofalwr, efallai y gallwch gael swm ychwanegol o hyd wedi'i gynnwys pan fyddwn yn gweithio eich Credyd Pensiwn allan. Gelwir hyn yn 'swm ychwanegol i ofalwyr' ac mae'r un faint â'r premiwm gofalwr y cyfeirir ato uchod.

Sut y caiff Lwfans Gofalwr ei dalu?

Fel y rhan fwyaf o fudd-daliadau eraill, telir Lwfans Gofalwr fel arfer yn uniongyrchol i gyfrif banc, cymdeithas adeiladu neu gyfrif cerdyn swyddfa'r post. Byddwn yn gofyn i chi am fanylion eich cyfrif pan fyddwch yn gwneud eich cais.

Os nad oes gennych gyfrif banc ac nad ydych yn gallu agor un, bydd angen i chi gysylltu â'r Uned Lwfans Gofalwr i drafod dulliau eraill sydd ar gael. Gweler yr adran 'Sut ydw i'n cael rhagor o wybodaeth' isod.

Beth os ydw i'n gweithio?

Gallwch fod yn gymwys i gael Lwfans Gofalwr o hyd os nad ydych yn ennill mwy na swm penodol (ar ôl i ni ystyried rhai treuliau).

Pan fydd eich enillion yn fwy na'r swm hwn, bydd y ffordd y cânt eu talu'n effeithio ar y cyfnod na fyddwch yn gymwys i gael Lwfans Gofalwr. Er enghraifft, os cewch eich talu bob mis ni fyddwch yn gymwys i gael Lwfans Gofalwr ar gyfer y mis canlynol. Os cewch eich talu bob wythnos, ni fyddwch yn gymwys i gael Lwfans Gofalwr ar gyfer yr wythnos ganlynol.

Rydym yn caniatáu'r treuliau canlynol yn erbyn eich enillion.

- Rhai cyfraniadau Yswiriant Gwladol (YG)
- Treth incwm
- Hanner o unrhyw arian a dalwch tuag at gynllun pensiwn personol neu alwedigaethol
- Treuliau eraill y mae'n rhaid i chi eu talu oherwydd eu bod yn rhan angenrheidiol o'ch swydd (er enghraifft, dillad arbennig neu'r gost o deithio rhwng gweithleoedd)
- Y gost o dalu rhywun (ond nid perthynas agos) i ofalu am blentyn, neu'r person rydych yn gofalu amdano, tra'ch bod yn y gwaith. Rydym yn caniatáu hyd at hanner o weddill eich enillion ar ôl i ni ganiatáu'r treuliau eraill.

  Gweler 'Sut ydw i'n cael rhagor o wybodaeth?'

Beth os ydw i'n cael seibiannau o ofalu o bryd i'w gilydd?

Os ydych yn cael seibiannau dros dro o ofalu, er enghraifft, tra bod y person rydych yn gofalu amdano mewn gofal seibiant neu fod un ohonoch yn yr ysbyty, gallai effeithio ar eich budd-dal.

Dylech ddweud wrth yr Uned Lwfans Gofalwr am unrhyw seibiannau o ofalu – ffoniwch nhw ar 01253 85 61 23 (ffôn testun 01772 899489) neu anfonwch ebost at cau.customer-services@dwp.gsi.gov.uk

Beth os mai dim ond ar y penwythnos rwy'n gofalu?

At ddibenion Lwfans Gofalwr, mae'r 'wythnos ofalu' yn rhedeg 7 diwrnod llawn o ddydd Sul i ddydd Sadwrn. Felly, gallech fod yn gymwys i gael Lwfans Gofalwr o hyd os mai dim ond ar y penwythnos y gallwch ddarparu gofal os:

- rydych yn darparu'r gofal am 35 awr neu fwy yn yr un wythnos (er enghraifft, yn ystod dydd Sul a'r dydd Sadwrn canlynol), a
- bod y person rydych yn gofalu amdano yn cael cyfradd uchaf neu gyfradd ganol elfen ofal DLA, AA neu CAA (ar yr uchafswm cyfradd arferol neu'n uwch fel rhan o Fudd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol neu'r gyfradd sylfaenol (diwrnod llawn) fel rhan o Bensiwn Anabledd Rhyfel) am o leiaf dau ddiwrnod yn yr un wythnos.

Byddai'r un peth yn berthnasol, er enghraifft, os ydych yn gofalu am blentyn sydd mewn ysgol breswyl yn ystod yr wythnos tra'u bod gartref ar y penwythnos. Os byddwch yn bodloni'r amodau uchod, gallech gael Lwfans Gofalwr o hyd.

Beth os yw dau berson yn gofalu yn yr un cartref?

Dim ond i un gofalwr i bob person anabl y telir Lwfans Gofalwr. Mewn rhai achosion, mae cyplau yn gofalu am ei gilydd. Os bydd yr amodau'n cael eu bodloni, gall y ddau bartner wneud cais am Lwfans Gofalwr.

Beth os oes rhywun arall yn y tŷ yn gofalu am fy mhlant?

Efallai y gallech gael arian ychwanegol ar gyfer gŵr, gwraig, partner sifil neu oedolyn arall sy'n byw gyda chi sy'n gofalu am blentyn neu blant rydych yn cael Budd-dal Plant ar eu cyfer.

Byddwn yn edrych ar enillion y person hwn, yn cynnwys unrhyw bensiwn preifat neu bensiwn galwedigaethol. Byddwn hefyd yn edrych ar fudd-daliadau eraill. Os yw'r person hwn yn derbyn rhai budd-daliadau (fel Budd-dal Analluogrwydd neu Bensiwn y Wladwriaeth), ni fyddwn yn talu'r arian ychwanegol.

Beth os bydd newid mewn amgylchiadau?

Os bydd eich amgylchiadau yn newid (er enghraifft, os byddwch yn symud i gyfeiriad newydd neu'n dechrau gweithio), mae'n rhaid i chi ddweud wrth yr Uned Lwfans Gofalwr ar unwaith. Gallwch hefyd roi gwybod am newid mewn amgylchiadau ar-lein. Gweler yr adran 'Beth ydw i'n ei wneud nesaf?' isod.

Beth os bydd y person rwy'n gofalu amdano yn marw?

Os bydd y person rydych yn gofalu amdano yn marw, bydd eich Lwfans Gofalwr yn parhau am hyd at 8 wythnos arall cyhyd â'ch bod yn parhau i fodloni rhai amodau. Os ydych yn cael premiwm gofalwr neu'r swm ychwanegol am ofalu, gallech barhau i'w gael am hyd at 8 wythnos arall hefyd.

Beth arall sydd angen i mi wybod am fudd-daliadau'r person rwy'n gofalu amdano?

Os yw'r person rwy'n gofalu amdano'n cael budd-daliadau eraill

Os yw'r person rydych yn gofalu amdano'n cael budd-daliadau eraill, efallai eu bod yn cael swm ychwanegol o'r enw premiwm anabledd difrifol (neu swm ychwanegol am anabledd difrifol mewn Credyd Pensiwn). Caiff ei dalu fel rhan o unrhyw un o'r canlynol.

- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
- Cymhorthdal Incwm
- Credyd Pensiwn
- Budd-dal Tai
- Budd-dal Treth Cyngor

Os byddwch yn cael unrhyw swm o Lwfans Gofalwr, bydd y person rydych yn gofalu amdano'n rhoi'r gorau i gael y swm ychwanegol hwn. I gael rhagor o wybodaeth, dylai'r person gysylltu â'r swyddfa sy'n delio â'r budd-dal yr effeithir arno. Os byddai'n well ganddot siarad â rhywun wyneb yn wyneb, dylai gysylltu â'r swyddfa Canolfan Byd Gwaith leol, canolfan bensiynau neu gyngor lleol. Gellir dod o hyd i fanylion cyswllt yn y llyfr ffôn lleol, neu yn www.canolfanbydgwaith.gov.uk neu www.pensiynau.gov.uk

Beth os bydd y budd-dal cymwys a delir i'r person rwy'n gofalu amdano yn newid?

Os bydd y budd-dal a delir i'r person rydych yn gofalu amdano yn dod i ben neu, yn achos elfen ofal DLA, yn lleihau i'r gyfradd isaf, bydd eich Lwfans Gofalwr yn dod i ben. Fodd bynnag, os dechreuir talu budd-dal cymwys unwaith eto, neu fod elfen ofal DLA yn mynd yn ôl i'r gyfradd ganol neu uchaf, gallwch wneud cais am Lwfans Gofalwr unwaith eto.

Beth arall sydd angen i mi ei wybod am fudd-daliadau eraill?

Lwfans Gofalwr a chyfraniadau Yswiriant Gwladol

Am bob wythnos rydym yn talu Lwfans Gofalwr i chi, bydd cyfraniad Yswiriant Gwladol (YG) fel arfer yn cael ei ychwanegu i'ch cofnod YG (oni bai eich bod yn ferch sydd wedi dewis talu cyfraniadau YG ar gyfradd is) hyd at y flwyddyn dreth y byddwch yn troi'n 60 oed. Cewch eich credydu fel arfer â chyfraniad YG am bob wythnos rydych yn gymwys i gael Lwfans Gofalwr ond nid yw'n cael ei dalu oherwydd eich bod hefyd yn cael Budd-dal Gwraig Weddw neu fudd-daliadau Profedigaeth ar yr un gyfradd wythnosol neu gyfradd wythnosol uwch.

Mae credydau YG dosbarth 1 yn diogelu eich hawl i rai budd-daliadau fel Pensiwn y Wladwriaeth, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar gyfraniadau a Budd-dal Analluogrwydd.

Ail Bensiwn y Wladwriaeth

O fis Ebrill 2002, ar gyfer pob blwyddyn dreth gyflawn rydym yn talu Lwfans Gofalwr i chi, byddwch yn awtomatig yn cronni Ail Bensiwn y Wladwriaeth, sydd weithiau'n cael ei alw'n bensiwn ychwanegol (oni bai eich bod yn ferch sydd wedi dewis talu cyfraniadau YG ar gyfradd is). Os ydych yn gymwys i gael Lwfans Gofalwr ond na chaiff ei dalu i chi, byddwch yn cronni Ail Bensiwn y Wladwriaeth o hyd. Bydd y pensiwn ychwanegol yn cael ei dalu gyda'ch Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Diogelwch Cyfrifoldebau Cartref

Nid budd-dal yw Diogelwch Cyfrifoldebau Cartref (HRP) ond cynllun sy'n helpu i ddiogelu eich Pensiwn y Wladwriaeth.

Efallai y gallwch gael HRP os nad ydych yn gweithio neu os yw'ch enillion yn is na lefel benodol ac y byddwch yn treulio 35 awr neu fwy yn rheolaidd yr wythnos drwy gydol y flwyddyn dreth yn gofalu am rywun sy'n cael AA, neu gyfradd uchaf neu ganol elfen ofal DLA neu CAA.

Os nad ydych yn hawlio Lwfans Gofalwr am ryw reswm, bydd angen i chi wneud cais am HRP.

Os ydych yn cael Lwfans Gofalwr, dyfernir credydau Yswiriant Gwladol i chi fel arfer ac ni fyddai angen HRP arnoch.

Ni fydd angen i chi wneud cais am HRP os dyfarnwyd Budd-dal Plant i chi ar gyfer plentyn o dan 16 oed gan y byddwch yn ei gael yn awtomatig.

Os ydych yn ferch, ni allwch gael HRP am unrhyw flwyddyn pan fyddwch yn gymwys i dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol is i ferched priod a gwragedd gweddw, tra'ch bod yn gweithio.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn eich swyddfa Canolfan Byd Gwaith, neu ganolfan bensiynau leol.

Credyd Treth Plant

Efallai y gallwch wneud cais am Gredyd Treth Plant. Taliad yw hwn i roi cymorth i deuluoedd â phlant. Gall pobl sy'n gyfrifol am un plentyn neu berson ifanc neu fwy wneud cais amdano.

I gael rhagor o wybodaeth am Gredyd Treth Plant, ewch i wefan Cyllid a Thollau EM yn www.hmrc.gov.uk.

Os byddai'n well gennych ffonio Cyllid a Thollau EM, ffoniwch y llinell gymorth ar 0845 300 3900.

Beth ddylwn i ei wneud nesaf?

Gwneud cais yn y post

Gallwch gael pecyn gais drwy ffonio'r Uned Lwfans Gofalwr, y Llinell Ymholiadau Budd-daliadau, eich Canolfan Byd Gwaith neu'ch Canolfan Bensiynau leol.

Gweler manylion cyswllt yn 'Sut ydw i'n cael rhagor o wybodaeth?' isod.

Gwneud cais neu roi gwybod am newidiadau ar-lein

Mae'r Uned Lwfans Gofalwr hefyd yn cynnig gwasanaeth ar-lein i ofalwyr. Gallwch ddefnyddio'r gwasanaeth hwn i wneud cais ac i roi gwybod am newidiadau yn eich amgylchiadau.

Gallwch wneud cais am Lwfans Gofalwr ar-lein yn **www.dwp.gov.uk.** Dylech edrych ar yr adran "pobl anabl a gofalwyr". Neu, ewch i **www.direct.gov.uk/carers.**

Mae wedi'i gynllunio i fod yn gyflym ac yn hawdd i'w llenwi. Nid oed rhaid i chi lenwi'r ffurflen i gyd ar unwaith – byddwch yn cael rhif trafod unigryw, fel y gallwch arbed eich cofnodion a dychwelyd at y ffurflen hyd at bum diwrnod yn ddiweddarach. Neu, gallwch argraffu copi o'r ffurflen gais o'r wefan a'i llenwi â llaw. Postiwch y ffurflen i'r Uned Lwfans Gofalwr yn y cyfeiriad a ddangosir yn 'Sut ydw i'n cael rhagor o wybodaeth?'

Pryd y dylwn i wneud cais?

Dylech wneud cais ar unwaith i osgoi colli arian, hyd yn oed os yw'r person rydych yn gofalu amdano yn aros i gael clywed am gais am AA, DLA neu CAA. Dylech gofio mai dim ond am hyd at 3 mis cyn y dyddiad y caiff y cais ei dderbyn yn y swyddfa y gellir dyfarnu Lwfans Gofalwr.

Cyfweliadau sy'n Canolbwyntio ar Waith

Os ydych yn byw mewn ardal gyda swyddfa Canolfan Byd Gwaith, gallwn gynnig Cyfweliad sy'n Canolbwyntio ar Waith (WFI) i chi gydag ymgynghorydd personol. Nid oes rhaid i chi gael y cyfweliad i wneud cais am Lwfans Gofalwr, ond mae ar gael os hoffech gael cyngor ar gyflogaeth neu hyfforddiant rhan amser posibl. Mae'r help yno os byddwch yn dewis manteisio arno, naill ai nawr neu'n ddiweddarach os bydd eich cyfrifoldebau gofalu yn newid.

Os hoffech drafod p'un a fyddai WFI yn addas i chi, neu drefnu cyfweliad, cysylltwch â'ch swyddfa Canolfan Byd Gwaith leol. Mae manylion am eich swyddfa Canolfan Byd Gwaith yn eich llyfr ffôn lleol.

Os ydych yn gwneud cais am Gymhorthdal Incwm neu Fudd-dal Analluogrwydd yn ogystal â Lwfans Gofalwr, bydd rhaid i chi gael WFI o ganlyniad i'ch cais i gael y budd-daliadau hynny. Os mai dyma'r achos, bydd y swyddfa berthnasol yn cysylltu â chi.

Sut ydw i'n cael rhagor o wybodaeth?

Canolfan Byd Gwaith

I gael rhagor o wybodaeth am fudd-daliadau neu daflenni eraill, ewch i wefan y Ganolfan Byd Gwaith yn www.canolfanbydgwaith.gov.uk neu cysylltwch â'ch swyddfa Canolfan Byd Gwaith leol. Gallwch ddod o hyd i'w manylion cyswllt ar y wefan neu yn eich llyfr ffôn.

Gwasanaeth Anabledd a Gofalwyr (DCS)

Yn rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau, mae'r DCS yn darparu cymorth i bobl anabl a'u gofalwyr, p'un a allant weithio ai peidio. Maent yn delio â cheisiadau am DLA, AA a Lwfans Gofalwr. Mae DCS hefyd yn ymdrin â Thaliadau Niwed Trwy Frechiad, ac yn darparu'r Llinell Ymholiadau Budd-daliadau.

Uned Lwfans Gofalwr

Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch, neu i gael ffurflen gais, ffoniwch yr Uned Lwfans Gofalwr.

Ffôn: **01253 85 61 23**
Ffôn testun: **01772 899489**
E-bost: cau.customer-serivces@dwp.gsi.gov.uk
Cyfeiriad: Carer's Allowance, Palatine House, Lancaster Road, Preston, PR1 1HB

Llinell Ymholiadau Budd-daliadau

Gwasanaeth ffôn cyfrinachol yw hwn i bob anabl, gofalwyr a chynrychiolwyr. Ni fydd gan y person sy'n cymryd eich galwad eich papurau personol, ond gallant roi cyngor cyffredinol i chi. Ni ddylech gymryd y cyngor hwn fel penderfyniad ar unrhyw fater rydych yn holi yn ei gylch.

Ffôn (Rhadffon): **0800 88 22 00** (8.30am i 6.30pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener, a 9am i 1pm ar ddydd Sadwrn)
Ffôn testun: **0800 24 33 55**

Y Gwasanaeth Pensiwn

Os ydych dros yr oedran pensiwn gallwch gael rhagor o wybodaeth am fudd-daliadau neu daflenni eraill o'r Gwasanaeth Pensiwn yn www.pensiynau.gov.uk

Gwefannau'r Llywodraeth

Directgov
Straight through to public services

Ewch i Directgov i gael yr amrywiaeth ehangaf o wybodaeth ar-lein gan y Llywodraeth – mae adran ar gyfer pobl anabl sy'n cwmpasu cymorth ariannol, hawliau anabledd, cyflogaeth, byw'n annibynnol a llawer mwy. Ceir adran ar gyfer gofalwyr hefyd.

www.direct.gov.uk/disability

www.direct.gov.uk/carers

Adran Gwaith a Phensiynau

Gallwch gael rhagor o wybodaeth o wefan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn www.dwp.gov.uk. I gysylltu â DWP dros yr e-bost, ewch i'r adran 'cysylltu â ni' ar y wefan.

Yr Adran Iechyd

Mae gan yr Adran Iechyd wefan ar gyfer gofalwyr yn www.carers.gov.uk

Cynhalwyr y DU

Sefydliad gwybodaeth ac ymgyrchu ar gyfer gofalwyr yw hwn, gyda llinell gymorth benodedig ar gyfer gofalwyr.

Llinell Cynhalwyr (Cymru): 029 2081 1370
E-bost: info@carerswales.org.uk

CarersLine (Lloegr): 0808 808 7777 (10am i 12pm a 2pm i 4pm, dydd Mercher a dydd Iau)
E-bost: info@carersuk.org

CarersLine (yr Alban): 0141 221 9141
E-bost: info@carersscotland.org

Gwefan (Cymru): www.cynhalwyrcymru.org
Gwefan (Lloegr): www.carersuk.org
Gwefan (yr Alban): www.carersscotland.org

Ymddiriedolaeth y Dywysoges Frenhinol i Ofalwyr

Mae'r ymddiriedolaeth yn gweithio i gyrraedd gofalwyr ac i ddatblygu gwasanaethau i ofalwyr ledled y wlad drwy rwydwaith cenedlaethol o dros 100 o ganolfannau i ofalwyr. I ddod o hyd i'ch canolfan leol, ewch i'r wefan neu cysylltwch â'ch swyddfa leol o'r rhestr isod.

Gwefan: www.carers.org

Swyddfa Glasgow
Ffôn: 0141 221 5066
E-bost: infoscotland@carers.org

Swyddfa Gogledd Lloegr
Ffôn: 01257 234 070
E-bost: infochorley@carers.org

Swyddfa Llundain
Ffôn: 020 7480 7788
E-bost: help@carers.org

Gall eich swyddfa nawdd cymdeithasol leol a llawer o sefydliadau lleol (fel Cyngor ar Bopeth) hefyd roi ffurflenni cais i chi a'ch helpu i'w llenwi.

Mae'r daflen hon ar gael yn Saesneg, mewn print bras, mewn Braille, ar gasét ac ar CD. I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r Llinell Ymholiadau Budd-daliadau. Gallwch eu ffonio ar **0800 88 22 00.** Mae hefyd gwasanaeth ffôn testun ar **0800 24 33 55** i bobl â nam ar eu clyw neu ar eu lleferydd. Gallwch ffonio'r rhifau hyn rhwng 8.30am a 6.30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener a rhwng 9am a 1pm ar ddydd Sadwrn.

Canllaw cyffredinol yn unig yw'r daflen hon ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Rydym wedi gwneud pob ymdrech i wneud yn siŵr bod y wybodaeth ar y daflen hon yn gywir ar y dyddiad a ddangosir isod.

Rhif Cyf. CAA5DCSW fersiwn 1/06
ISBN: 1-84388-812-2